**CYNGOR CYMUNED RHOSCOLYN**
**Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol - 7.00pm, Dydd Iau 18 Mai 2023**

**Presennol:** Cadeirydd Cyng. Barry Thomas
**Cynghorwyr:** Mike Bloor, Susan Hanbury, Elwyn Owen, William Roberts, Evan Wyn Robertson a Tony Thompson
Hefyd yn bresennol: Mai Owen (Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol).
Cyfieithydd (Aled – Cymen Cyf.)

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Iwan Jones.

**2. Ethol Cadeirydd 2023-2024**

Gyda'r Cyng. E.W. Robertson yn cynnig a'r Cyng. S. Hanbury yn eilio'r fe etholwyd Cyng. Barry Thomas yn gadeirydd am flwyddyn arall. – Pawb yn cytuno.

**3. Ethol Is-gadeirydd 2023-2024**

Gyda'r Cyng. E.W. Robertson yn cynnig a'r Cyng. W. Roberts yn eilio'r fe etholwyd Cyng. Susan Hanbury yn Is-gadeirydd. Pawb yn cytuno.

**4. Ethol Cynrychiolwyr**

4.1 Fforwm Cyswllt Cyngor Tref a Chymuned – Cytunodd Cyng. S. Hanbury i gynrychioli'r Cyngor ond roedd lle i un arall fynychu'r cyfarfodydd hefyd.

**5. Datganiad o Ddiddordeb – dim**

**6. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Derbyniwyd cofnodion 6 Ebrill 2023 fel rhai cywir (Cyn. Cyng. T. Thompson, eilio Cyng. E.W. Robertson.)

**7. Materion yn codi o'r cofnodion -** dim

**8. Cynllunio**

8.1 **VAR/2023/23 Plas Uchaf, Rhoscolyn**
Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02)(Cynlluniau cymeradwy), (03)(Blychau nythu aderyn y to) and (04)(Bocs ystlumod) o caniatâd cynllunio rhif HHP/2021/236 (addasu ac ehangu hefo balconi) er mwyn diwygio dewisiadau deunydd allanol– dim gwrthwynebiad.

8.2 **HHP/2023/85 Tŷ Rhos, Pontrhydybont**
Cais llawn ar gyfer codi gweithdy – Roedd pryderon am uchder yr adeilad pe bai ond yn cael ei ddefnyddio fel gweithdy / man storio ar gyfer cartref modur a hefyd am yr agosrwydd at ffin yr eiddo cyfagos. Nodwyd hefyd fod y safle o fewn yr AHNE. Cytunwyd i ofyn pe bai'r cais yn cael ei gytuno ei fod ar yr amod nad oedd i'w gael ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion masnachol neu breswyl.

**9. Gohebiaeth**

9.1 Un Llais Cymru - hyfforddiant



Llofnod............................................... Cadeirydd

9.2 Archwilio 2022/23 –Cyfarwyddyd o Swyddfa Archwilio Cymru.

9.3 Ymgynghoriad: Ardal o Gynllun Rheoli Harddwch Naturiol Eithriadol:

9.4 Ymgynghoriad; Cynllun Rheoli Cyrchfan Môn:

9.5 Canllaw Cynghorwyr Da (Cyflogaeth)

**10. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd: yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod o 1.4.2023 i 30.4.2023 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

Roedd yr ansicrwydd ynglŷn â'r costau archwilio yn parhau. Cytunwyd mai doeth fyddai talu'r swm dwy flynedd a fynnwyd arno gan Un Llais Cymru i ail ymaelodi er mwyn arbed arian ar bris hyfforddiant a chael mantais o'r fwrsariaeth ar gyfer hyfforddiant a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Cytunwyd hefyd fod y swm o £10,000 oedd ar ddogfennau yswiriant Zurich yn adlewyrchiad eithaf cywir o werth y ddwy loches fws a'r meinciau a gynhwysir ar y Gofrestr Asedau.

Roedd Mr Hughie Lloyd Jones wedi cytuno i gynnal Archwiliad Mewnol cyfrifon 2022/23 - byddai'r clerc yn cyflwyno'r dogfennau iddo cyn gynted â phosib.

10.1 Yswiriant – cytunwyd i dderbyn y dyfynbris Zurich ar gyfer 2023-24.

10.2 Asesiad Risg Ariannol - roedd y Cadeirydd wedi awgrymu y dylai hyn gynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â lleoliad y cyfarfod ac ati. Byddai'r clerc yn edrych ar hyn.

10.3 Polisi Lwfans Aelodau - wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

10.4 Taliadau i'w gwneud:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Un Llais Cymru | £233 | Yswiriant Zurich | £257.60 |

Cytunwyd i dalu'r costau cyfieithu os byddant yn codi cyn y cyfarfod nesaf.

**11. Dogfennau Statudol – cafodd y canlynol eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen.**

11.1 Rheolau Sefydlog – dim newid.

11.2 Rheoliadau ariannol - dim newid

11.3 Cod Ymddygiad – dim newid.

11.4 Cofrestr Lletygarwch – Dim byd i'w gynnwys ar y gofrestr ar gyfer 2022/23.

**12. Materion plwyfol**

12.1 Llwybrau troed – roedd y contractwr wedi dechrau torri'r rhain.

12.2 Saltings Pontrhydybont – Roedd y Cyngor Cymuned yn bwriadu gweithio gyda CSYM i geisio datrys y problemau parcio. Cafwyd cwynion pellach am faw cŵn a bod rhai yn taflu toriadau glaswellt ar y gwyrdd ac ati. Byddai'r clerc yn gwneud ymholiadau pellach am hyn.



Llofnod............................................... Cadeirydd

12.3 Cau Ffyrdd Dros Dro – Pontrhydybont - gwaith angenrheidiol ar Lôn Ysgol Rhoscolyn i osod rhigl newydd a gwaith cysylltiedig.

12.4 Enwau lleoedd lleol - Mynegodd y Cyng. Susan Hanbury bryderon am nifer yr enwau lleoedd Cymraeg oedd yn cael eu colli yn yr ardal, cytunwyd i ddarganfod a oedd unrhyw gyllid ar gael i ddarparu arwyddion newydd ac ati.

12.5 Gorchymyn Ymgynghori 202: terfyn cyflymder arfaethedig B4545 (126 medr i'r gogledd-ddwyrain o Gyffordd Copperfield Close hyd at 573 medr i gyfeiriad Y Fali) – roedd y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu lleihau'r terfynau cyflymder i 20 milltir yr awr.

12.6 Adroddiadau eraill

Cyng. William Roberts: mynegodd bryderon am yr acwsteg yn y neuadd a gofynnodd a fyddai modd gwneud cais am gyllid i'r Cyngor Sir. Cytunwyd y byddai'n rhaid i'r math hwn o gais grant gael ei wneud gan Bwyllgor Rheoli'r Neuadd, ond byddai'r Cyngor Cymuned yn edrych ar gynorthwyo gyda gwelliannau pan fyddai arian ar gael.

Cyng. Barry Thomas: dywedodd fod hwyneb y ffordd rhwng Ysgol Rhoscolyn a Cnwc Melyn wedi dirywio yn arw.

Cyng. Elwyn Owen: mynegodd bryderon am nifer y posteri / hysbysiadau oedd yn cael eu gadael allan i bydru - dylid eu dileu yn syth ar ôl pob digwyddiad. Cytunwyd i fonitro hyn.

Cyng. Susan Hanbury: dywedodd y ei bod yn ymddangos bod y mater diweddar gyda pharcio wrth Bryn y Môr wedi'i ddatrys - cytunwyd i fonitro hyn.

**13. Cyfarfod nesaf - 29 Mehefin 2023**

## RHOSCOLYN COMMUNITY COUNCIL
## Minutes of the Annual Meeting - 7.00pm,Thursday 18 May 2023

**Present:** Chairman Cllr. Barry Thomas
**Councillors:** Mike Bloor, Susan Hanbury, Elwyn Owen, William Roberts, Evan Wyn Robertson and Tony Thompson
Also Present: Mai Owen (Clerk).
Translator (Aled – Cymen Cyf.)

**1. Apologies:** Councillor Iwan Jones.

**2. Election of Chairman 2023 – 2024**

With Cllr. E.W. Robertson proposing and Cllr. S. Hanbury seconding Cllr. Barry Thomas was re-elected as the Chairman. All agreed.



Llofnod............................................... Cadeirydd

**3.** **Election of Vice- Chairman 2023- 2024**

With Cllr. E.W. Robertson proposing and Cllr. W. Roberts seconding Cllr. Susan Hanbury was elected as Vice-chairman. All agreed.

**4.** **Election of Representatives – the following were elected:**

4.1 Town and Community Council Liaison Forum – Cllr. S. Hanbury agreed to represent the Council but one other could also attend the meetings.

**5.** **Declaration of Interest – none**

**6.** **Minutes of the last meeting**

The minutes of 6 April 2023 were accepted as being correct (Proposed Cllr. T. Thompson, seconded Cllr. E.W. Robertson.)

**7.** **Matters arising from the minutes -** none

**8.** **Planning**

8.1 **VAR/2023/23 Plas Uchaf, Rhoscolyn**

Application under Section 73 for the variation of condition (02)(Approved plans), (03)(Sparrow nest boxes) and (04)(Bat boxes) of planning permission reference HHP/2021/236 (alterations and extensions with balcony) so as to allow amended external material choices – no objection.

8.2 **HHP/2023/85 Ty Rhos, Pontrhydybont**

Full application for the erection of a workshop - Members raised concerns raised about the height of the building if it was to be used as a workshop / storage area for a motor home and the proximity to the boundary of the neighbouring property. It was also noted that the site was within the AONB. Agreed to request that if the application was to be agreed that it be on the condition that it was not to be used for any commercial or residential purposes.

**9.** **Correspondence**

9.1 One Voice Wales - training

9.2 Audit 2022/23 – Instruction / Guidance received from Audit Wales.

9.3 Consultation: Area of Outstanding Natural Beauty Management Plan:

9.4 Consultation; Anglesey Destination Management Plan:

9.5 Good Councillor's Guide to Employment

**10.** **Financial Matters**

Submitted: the financial report for the period from 1.4.2023 to 30.4.2023 together with bank reconciliations, statements and copies of the accounts.

The external auditor's costs were sill not known. It was agreed to pay the two years payment demanded by One Voice Wales in order to receive training at the lower member's rate. It would also allow the Council to apply for the bursary offered by the Welsh Government for training.

It was also agreed that the £10,000 sum included on the Insurance Documents was as

accurate a figure possible for the value of the two bus shelters and benches included on the Asset Register.
Mr Hughie Lloyd Jones had agreed to carry out the Internal Audit of the 2022/23 accounts – the clerk would present the documents to him as soon as possible.

10.1 Insurance – agreed to accept the Zurich quotation for 2023-24.

10.2 Financial Risk Assessment – the Chairman had suggested that this should include the risks associated with the meeting venue etc. The clerk would look at this.

10.3 Members Allowance Policy - updated to reflect the changes put forward by the Independent Remuneration Panel for Wales.

10.4 Payments to be made:

| | | | |
|---|---|---|---|
| One Voice Wales | £233 | Zurich Insurance | £257.60 |

It was also agreed that the RFO should pay for the translation costs if they arise before the next meeting.

**11. Statutory Documents – the following were review and amended as required.**

11.1 Standing Orders – no change.

11.2 Financial Regulations - no change.

11.3 Code of Conduct – no change.

11.4 Hospitality Register – Nil return registered for 2022/23.

**12. Parochial Matters**

12.1 Footpaths – the contractor had started cutting these.

12.2 Saltings, Four Mile Bridge –the Community Council would be working with IOACC to try and resolve the parking issues. Members of the public had identified further issues with dog fouling and the dumping of grass cuttings on the green. The clerk would make further enquiries about this.

12.3 Temporary Road Closure - Four Mile Bridge to Rhoscolyn Road -necessary to install a new gully and associated works on Rhoscolyn School Lane.

12.4 Local place names – Cllr. Susan Hanbury expressed concerns about the number of Welsh place names that were being lost in the area, it was agreed to find out whether any funding was available to provide new signage etc.

12.5 Consultation Order 202: proposed speed limit B4545 (126 meters North East of Junction Copperfield Close towards 573 meters towards Valley) – the Community Council was opposed to reducing the speed limits to 20mph.

12.6 Other reports



Llofnod............................................... Cadeirydd

Cllr. William Roberts: expressed concerns about the acoustics in the hall and asked whether an application for funding to could be made to the County Council. It was agreed that this type of grant application would have to be made by the Hall Management Committee however the Community Council would look at assisting with improvements when funds became available.

Cllr. Barry Thomas: reported that the stretch of road between Rhoscolyn School and Cnwc Melyn also required attention as the road surface was breaking up.

Cllr. Elwyn Owen: expressed concerns about the number of posters / notices that were being left to rot - they should be removed immediately after each event. Agreed to monitor this.

Cllr. Susan Hanbury: reported that the recent issue with parking by Bryn y Môr appeared to have been resolved – agreed to monitor this.

**13. Next Meeting - 29 June 2023**



Llofnod............................................... Cadeirydd